GIG CYMRU
NHS WALES

# Rotafeirws



Gallwch amddiffyn eich baban rhag yr haint rotafeirws – achos cyffredin o'r dolur rhydd a chwydu a all fod yn ddifrifol iawn.



## Beth yw’r rotafeirws?

Mae’r rhan fwyaf o fabanod yn chwydu ac yn cael dolur rhydd ar adegau. Gall y rotafeirws achosi’r math hwn o salwch.

Mae’r rhan fwyaf o fabanod yn gwella o’r salwch hwn gartref. Gall rhai achosion fod yn ddifrifol gan olygu bod babanod yn dadhydradu (pan nad oes gan y corff ddigon o hylif) a bydd angen triniaeth arnynt yn yr ysbyty.

Cyn i’r rhaglen frechu rhag yr haint rotafeirws gael ei chyflwyno roedd y rhan fwyaf o blant yn cael y rotafeirws rywbryd cyn cyrraedd pump oed. Yng Nghymru roedd angen sylw meddygol ar un o bob pump ohonynt, ac roedd un o bob deg yn gorfod mynd i’r ysbyty. Mae brechiad bellach yn helpu atal saith allan o bob deg haint o rotafeirws.

## Sut mae’r rotafeirws yn lledaenu?

Mae’r rotafeirws yn lledaenu’n hawdd iawn a gall babanod ei drosglwyddo i eraill. Mae’r feirws yn lledaenu o’r dwylo i’r geg ac mae modd ei ddal ar ôl cyffwrdd â phethau



Cyhoeddwyd Ebrill 2018

fel cewynnau/clytiau neu deganau.
Gall golchi'r dwylo a chadw arwynebau'n lân helpu, ond ni all y pethau hyn atal y feirws yn llwyr. Y ffordd orau o amddiffyn eich baban yw rhoi'r brechlyn iddo.

## Pryd bydd y brechiad yn cael ei gynnig i fy maban?

Bydd y brechlyn rotafeirws yn cael ei roi gyda brechiadau eraill eich baban pan fydd yn ddau fis ac yn dri mis oed. Bydd angen i'ch baban gael dau frechlyn rotafeirws, ac o leiaf bedair wythnos rhyngddynt.

Os bydd eich baban yn methu un o'r brechiadau, bydd modd ei roi hefyd gyda'r brechlynnau eraill pan fydd yn ddau fis ac yn bedwar mis oed, neu'n dri a phedwar mis oed, ond heb fod yn hwyrach na hynny.

## Pam na all babanod hŷn gael y brechlyn?

Wrth fynd yn hŷn, gall rhai babanod (tuag un o bob mil) gael cyflwr sy'n achosi rhwystr yn y coluddyn isaf, a elwir yn *intussusception* (gwrthdroi'r coluddyn). Mae'n rhywbeth prin iawn cyn tri mis oed, a bydd y rhan fwyaf o achosion yn digwydd rhwng pum mis oed a blwydd oed. Mae siawns fach iawn, mewn tua dau o bob 100,000 o fabanod, y gall y dos cyntaf o'r brechlyn achosi hyn hefyd.

Er mwyn lleihau'r risg, ni chaiff y dos cyntaf ei roi i fabanod sy'n hŷn na 15 wythnos, ac ni chaiff unrhyw frechlyn ei roi i fabanod sy'n hŷn na 23 wythnos oed.

## Sut caiff y brechlyn ei roi?

Bydd y brechlyn rotafeirws yn cael ei roi drwy ddiferydd ar ffurf hylif â blas melys iddo, fel ei fod yn haws i'r baban ei lyncu.

## Beth os yw'r baban yn chwydu'n syth ar ôl cael y brechlyn?

Nid yw hynny'n digwydd fel arfer, ond os bydd yn digwydd bydd y brechlyn yn cael ei roi eto.

## A fydd fy maban yn cael y clefyd rotafeirws ar ôl cael y brechlyn?

Na fydd. Mae'r feirysau yn y brechlyn yn wan fel na allant achosi'r clefyd. Mae'r brechlyn yn helpu eich baban i feithrin imiwnedd, fel y bydd ganddo'r amddiffyniad gorau posibl y tro nesaf y daw i gysylltiad â'r feirws.

Dylai pawb sydd wedi bod mewn cysylltiad agos â baban sydd newydd gael ei frechu, yn enwedig baban sydd â system imiwnedd wan, arfer hylendid da, er enghraifft drwy olchi eu dwylo ar ôl newid cewyn/clwt plentyn.

## A oes sgil-effeithiau i'r brechlyn?

Mae miliynau o ddosau o'r brechlyn wedi'u rhoi ac mae iddo hanes da o ran diogelwch.

Mae babanod sydd wedi cael y brechlyn yn gallu bod yn aflonydd a di-hwyl, a gall rhai ddatblygu ychydig o ddolur rhydd.

Os ydych chi'n poeni am iechyd eich baban ar ôl unrhyw frechiad, yna dylech siarad â'ch meddyg neu â'ch ymwelydd iechyd.

Mewn achosion prin iawn (tua dau o bob 100,000 o fabanod sy’n cael eu brechu), gall y brechlyn effeithio ar goluddyn isaf y baban a gall ddatblygu poen, chwydu, a phasio rhywbeth sy’n edrych fel jeli coch yn ei gewyn/clwt, fel arfer o fewn saith diwrnod i’w frechu. Os yw hyn yn digwydd, dylech gysylltu â’ch meddyg ar unwaith.

## Beth os yw fy maban yn sâl ar ddiwrnod y brechiad?

Nid oes rheswm dros ohirio’r apwyntiad oni bai bod eich baban yn sâl gyda thwymyn, yn chwydu neu os oes ganddo dolur rhydd.

## A oes unrhyw fabanod na ddylent gael y brechlyn?

Ni ddylid rhoi’r brechlyn i fabanod sydd:

- Dros 23 wythnos oed.
- Dros 15 wythnos oed os ydynt yn cael eu brechlyn rotafeirws cyntaf.
- Wedi cael adwaith anaffylactig i ddos blaenorol o’r brechlyn, neu i unrhyw un o gynhwysion y brechlyn.





- Â hanes blaenorol o *intussusception* (gwrthdroi'r coluddyn).
- Yn dioddef o gyflwr hirdymor, sy'n effeithio ar y coluddyn neu'r system imiwnedd. Trafodwch hyn â'ch meddyg yn y lle cyntaf.
- Yn dioddef o dwymyn, dolur rhydd neu'n chwydu ar ddiwrnod yr apwyntiad. Dylech ail-drefnu'r apwyntiad.

## Cafodd fy maban ei eni cyn pryd. Pryd dylai gael y brechlyn?

Dylid dilyn yr amserlen imiwneiddio yn ôl oedran y plentyn o'i ddyddiad geni.

## A oes modd bwydo'r baban ar y fron ar ôl y brechiad?

Oes. Nid oes problemau'n codi wrth fwydo babanod ar y fron ar ôl iddynt gael y brechlyn rotafeirws.

## A fydd y brechlyn yn atal babanod rhag chwydu neu gael dolur rhydd?

Na fydd. Nid y rotafeirws yw unig achos chwydu a dolur rhydd mewn babanod, ond bydd y brechlyn yn atal tua saith o bob deg baban rhag cael y rotafeirws.

## Y brechiad rotafeirws – y *prif* negeseuon

- Mae'r haint rotafeirws yn achosi chwydu a dolur rhydd mewn babanod a phlant ifanc.
- Gall fod yn ddifrifol iawn, ac efallai y bydd angen i rai babanod fynd i'r ysbyty.
- Mae'r brechlyn rotafeirws yn cael ei roi i fabanod trwy'r geg, gyda brechlynnau, eraill yn ddau fis ac yn dri mis oed.
- Bydd dau ddos o'r brechlyn rotafeirws yn helpu i osgoi saith achos allan o ddeg o'r haint rotafeirws mewn babanod.

## Sut mae cael rhagor o wybodaeth?

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y brechlyn, cynhwysion y brechlyn, a'r sgil-effeithiau posibl yn **www.medicines.org.uk/emc/** drwy roi enw'r brechlyn yn y blwch chwilio a dewis PIL, sef y daflen wybodaeth ar gyfer rhieni (Saesneg yn unig). Enw'r brechlyn sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yw Rotarix®.

Mae modd gweld rhestr o'r brechiadau sy'n cael eu cynnig yng Nghymru yn yr amserlen imiwneiddio rheolaidd yn www.nhsdirect.wales.nhs.uk/livewell/vaccinations/Leaflets/?locale=cy

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, neu os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth, siaradwch â'ch meddyg neu â'ch nyrs, edrychwch ar dudalen 'Gofynnwch eich Cwestiynau Iechyd' ar wefan Galw Iechyd Cymru, sef **www.galwiechydcymru.wales.nhs.uk** neu ffoniwch nhw'n uniongyrchol ar **0845 4647**.

I gael rhagor o gopiau o'r daflen hon, ebyst: **health.info@wales.nhs.uk** neu ffoniwch **029 2010 4650**.

Cynhyrchwyd y daflen hon gan:
Yr Is-adran Diogelu Iechyd, Llywodraeth Cymru, a Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

facebook.com
twitter.com

© Hawlfraint y Goron 2018 WG34390